# DINESYDD

**RHAGFYR/IONAWR**

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1983/84

RHIF 102


# RHYDDHAD



Mae'r rhyddhad yn amlwg ar wyneb y rhain. Cawsant eu rhyddhau ar ôl achos hir a chostus yn Llys y Goron, Caerdydd. O'i holl rai a holwyd ac a gyhuddwyd ynglŷn â ffrwydriadau yng Nghymru a Lloegr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dim ond dau a gafwyd yn euog o fod â ffrwydron yn eu meddiant. Cafwyd un arall yn euog o drefnu lloches i un ohonynt. Ni chafwyd neb yn euog o gynllwyn.

Yn ogystal â'r rhai fu'n sefyll yn y doc, dylid cofio i eraill gael eu cadw yn y ddalfa am gyfnodau maith heb i unrhyw achos gael ei ddwyn yn eu herbyn yn y diwedd.

Mae gwleidyddion a mudiadau hawliau sifil eisioes yn holi nifer o gwestiynau. Beth oedd sail amheuon yr heddlu yn erbyn y bobl hyn? (Daeth yn amlwg yn ystod yr achos nad oedd unrhyw dystiolaeth ganddynt i'w gynnig i gadarnhau'r amheuon hynny). Beth oedd y cymhellion y tu ôl i'r ymchwiliad? Paham fod Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ac ynadon wedi codi llewys yr heddlu bob cam o'r daith, er eu bod hwy mewn sefyllfa i weld mor dila oedd yr achos o'r cychwyn cyntaf? Yn wyneb y dystiolaeth fregus gellid fod wedi rhoi mechniaeth i'r diffinyddion o leiaf.

Dyma achos sy'n gadael blas cas yng ngheg democratiaeth. Blas nad â i ffwrdd tan i'r gwir gael ei wyntyllu'n llwyr.

Barn y Dinesydd - gweler Golygyddol.

PARTI
CAWL
A CHÂN

**Y DINESYDD**

**NOS SADWRN**
IONAWR 14 1984
**Neuadd Goffa**
**RHIWBEINA**
7.30 **o'r gloch**
**£2.00**
**CAWL GWIN A CHÂN**



**NADOLIG LLAWEN** i holl ddarllenwyr **Y DINESYDD** **a Blwyddyn Newydd Dda**

# GOLYGYDDOL

Nid yw meddwl am Gymry yn cario ffrwydron o gwmpas y wlad yn ddim mwy o gysur i ddyn nag yw meddwl am Reagan a Thatcher yn cario taflegrau niwclear o un cyfandir i'r llall.

Mae ymdrechion yr heddlu i ddod o hyd i'r rhai fu'n gyfrifol am yr ymgyrch fomio, felly, o'r pwys mwyaf. Ond taflwyd amheuon difrifol ar natur yr ymchwiliadau hynny'n ddiweddar gan ddyfarniad yr achos cynllwynio yma yng Nghaerdydd. Rhyddhawyd pedwar o'r diffinyddion, ar ôl iddynt dreulio misoedd lawer yn y ddalfa. Hawdd y gellir ei alw yr achos drytaf erioed i'w gynnal yng Nghymru.

Nid yw daliadau pobl a'r cwmni maent yn ei gadw yn dystiolaeth o ddim. Nid oes lle ychwaith i'r dacteg o ddwyn pobl i'r ddalfa ac yna ceisio dod o hyd i dystiolaeth i'w herbyn. Honnwyd gan un diffinydd fod yr heddlu wedi bod yn ei erlid dros gyfnod maith gan geisio crafu tystiolaeth yn ei erbyn.

Plismona peryglus yw arferion o'r fath ac nid oes lle iddynt mewn cymdeithas war.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld canlyniadau'r archwiliad y mae'r heddlu am ei gynnal i holl gefndir yr achos hwn. Gresyn nad yw'n un annibynnol. Mae ei oblygiadau o'r pwys mwyaf i bob dinesydd, serch hynny.

************

Hoff derm amryw byndit yw "rhyddid y wasg". Yn y gyfundrefn gyfalafol yr ydym yn byw ynddi, ystyr hynny yw bod rhyddid i'r sawl sydd â'r modd a'r plwc i gyhoeddi hyn a fynn a thrwy hynny i hybu ei safbwyntiau ei hun. Mewn byd perffaith byddai hynny'n deillio ar amrywiaeth o bapurau gan roi sbectrwm go dda o wahaniaeth barn a gogwydd meddwl.
Yn ei lyfr diweddar mae Harold Evans yn trafod ei gyfnod fel golygydd papurau'r Times o dan berchnogaeth Rupert Murdock. Yr hyn a welir yno yw rhesymeg yr egwyddor gyfalafol wedi ei throi wyneb i waered. Yn lle rhyddid ceir monopoleiddio a manipiwleiddio. Pan fo un person yn berchen ar gynifer o bapurau mae'r holl gysyniad o ryddid yn diflannu. Yr hyn geir wedyn yw dewis rhwng toriaeth gyda bronnau noeth neu toriaeth mewn print mân.

Cymaint yn fwy yw'r perygl yn yr iaith Gymraeg, lle daw'r nawdd angenrheidiol o bwrs y wlad.

Galwodd Y FANER yn ddiweddar am siâr yn fwy o'r dorth. Ei dadl yw y byddai un cylchgrawn cenedlaethol graenus, hollgynhwysfawr yn well na myrdd o rai bach, dilun eu diwyg a chyfyng eu hapêl. Mae arlliw rhesymeg ar y ddadl, ond gwae ni rhag byth cael ein dallu i'w derbyn. Mae cael papur o draddodiad Y FANER yn lleisio'r fath farn yn dangos perygl y sefyllfa.

Mae'n ddiddorol nodi i'r TIMES beidio ag adolygu llyfr Harold Evans. Braint Rupert Murdock fel y perchenog oedd cael dewis defnyddio ei rym yn y modd hwn. A oedd lles y cyhoedd a'r egwyddor o wasg rydd yn cael eu gwasanaethu gan y sensro hwn sy'n gwestiwn arall. Trwy lwc, nid yw grym Mr. Murdock dros y wasg i gyd a chafwyd trafod ar y llyfr ym mhapurau cenedlaethol eraill Lloegr.

Mae perchnogion Y FANER hwythau wedi profi eu bod yn barod i ddefnyddio'r un grym â Mr. Murdock ac wedi rhwystro cyhoeddi adolygiad yr oedd adran olygyddol y papur wedi ei gomisiynu. Petai'r FANER yn unig bapur wythnosol Cymru (ac mae hynny eisioes yn hanner y gwir, mwy neu lai), ple fyddai rhyddid wedyn? Oni ddylai adran olygyddol papur fod yn rhydd o unrhyw ymyrraeth gan berchnogion y wasg pam fo arian cyhoeddus yn noddi'r cyfan. Yn wir, oni ddylai Cyngor Celfyddydau Cymru fod yn gwneud hynny'n amod o'i nawdd.

Egwyddor yr unben yw egwyddor yr un llais. Er hyfryted llais o'r Bala, mae'n bwysig inni glywed acenion eraill hefyd. Dyna'r egwyddor sydd wrth wraidd y papurau bro ac egwyddor gadarn yw hi hefyd.

Nid fod Y DINESYDD yn argymell afradloni adnoddau. Ond mae'n rhaid amddiffyn amrywiaeth o fewn sector ein cylchgronnau sylweddol.

I'r pant y rhed y dŵr, mae'n wir. Ond mae un llyn yn ddigon yn y Bala.

# COLOFN
## Shân Emlyn

Arwydd o henaint medda nhw ydy deud bod amser yn hedfan ynghynt nag y bu. Ond, rhyfedd fel y mae dyddiad rhoi'r DINESYDD yn ei wely yn dod ynghynt ac ynghynt o fis i fis. Anodd credu hefyd bod blwyddyn gron er pan fum yn yr Wyl Gerdd Dant yn Llandudno. Dyma fi'n eistedd o flaen y tân ar nos Sul ar ôl dychwelyd o'r Wyl Gerdd Dant yn Aberystwyth. Dim ond y fi ac S4C sydd yma; mae Owen wedi mynd i Theatr y Sherman i weld 'Y Gelyn Pennaf'. R'on i'n meddwl fy mod wedi blino gormod i fynd efo fo - er yn hanner 'difarru ar ôl gweld golygfa o'r ddrama ar raglen Hywel Gwynfryn. Pam y blinder? Roedd hi'n hanner awr wedi dau bora heddiw ar yr Wyl yn dod i ben a finna wedi eistedd yno am dros ddeuddeng awr, a mwynhau pob munud. Mae'n synn ystyried y twf a'r bywiogrwydd sydd ym myd Cerdd Dant, y delyn a'r alaw werin heddiw ac fel mae'r safon yn codi'n gyson. A dyna ichi werth arian o delynau a oedd yno - does ryfedd bod Cwmni Salvi yn teimlo'i bod hi'n werth chweil iddynt gau eu siop yn Llundain wythnos gynta bob Awst a symud eu stondin i faes yr Eisteddfod. Roeddwn yn meddwl pnawn ddoe wrth weld yr holl delynau drudfawr yn cael eu cario'n ôl a blaen i'r llwyfan - tybed faint o delynau sydd yng Nghymru? Oni fuasai'n ddiddorol gwneud arolwg a chymharu'r rhif â faint o delynau sydd mewn gwledydd eraill? Dwi'n siwr y byddem o ran cyfartaledd poblogaeth ar y brig.
O sôn am arolwg, mi darodd fi neithiwr wrth feddwl am yr holl sôn sydd 'na am ostyngiad honedig gwylwyr S4C - does ryfedd - onid oes 'na gannoedd ar gannoedd o bobol wedi bod yn ymarfer yn ddyfal ers misoedd ar gyfer ein Gŵyl Gerdd Dant? Cyfraniad pwysig os nad pwysicach na bod yn rhan o ystadegau oer gwylwyr S4C! Wedi blino? Wn i ddim, ond mi wn i mi brofi gwefr Gwyl Gerdd Dant Cymru ddoe; wedi mwynhau "Hufen a Moch Bach" a "Rhaglen Hywel Gwynfryn" heno a chael hwb o rywle i sgwennu fy ngholofn fisol. Wedi blino? Na, teimlo reit braf, ac mai braint yw cael bod yn rhan o'r "Pethe".

# Y CALENDR

Rhagfyr:

5 Merched y Wawr, Festri Minny Street, 7.30 p.m. Croesawn gangen Y Barri.

5 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, Gwesty'r Parc, 7.30 p.m.; Prif Westai: Gwyn Griffiths, BBC.

6 Pwyllgor Dysgwyr Eisteddfod yr Urdd '85 Cyfweliadau yng Nghanolfan yr Urdd i rai sydd am ymuno a CHWRS WLPAN o nos Lun i nos Iau o Ionawr 9fed i Ebrill 10fed. Cost £40. Cyfweliadau: 7-9 p.m.

6 Gwasanaeth Nadolig Ysgol y Wern yng Nghapel Ebeneser, 7 o'r gloch.

7 Cyfarfod Sefydlu Y Clwb Criced, Clwb Ifor Bach, 8 o'r gloch.

9 Cymry'r Wenallt, yn y Pantmawr am 8 o'r gloch. Cwis.

9 Merched y Wawr, Cangen y Garth, Cinio Nadolig. Gŵr Gwadd: Dr. Meredydd Evans.

12 Cymry'r Eglwysnewydd. Capel y Methodistiaid, gyda Mrs. Mair Robbins a pharti plant Ysgol Melin Gruffydd.

12 Darlith gan Robert Griffiths; 'S.O.Davies, Ei Waith a'i Fywyd'. Clwb Ifor Bach, 8 o'r gloch.

15 Pwyllgor Dysgwyr Eisteddfod yr Urdd '35 Parti Nadolig yng Nghlwb Ifor Bach. Bwyd a Disco.

17 Cyngerdd Côr Philharmonic Caerdydd, Neuadd y Brifysgol, Corbett Road. Cyfeilydd: John Howells Mynediad trwy raglen Pris £3. Pensiynwyr a myfyrwyr: £2.

19 Clwb y Dwrlyn - Parti Nadolig y Plant, Neuadd y Pentref, Pentyrch.

21 Eisteddfod yr Urdd '85 Cymuned Rhiwbeina. Cyngerdd 'Dathlu'r Nadolig' yng Nghapel Bethany, Rhiwbeina, 7.30 o'r gloch. Tocynnau: £1 (50c i blant a phensiynwyr).

Ionawr:

9 Merched y Wawr. Festri Minny Street. 7.30 p.m. Crochenwaith Llanelli gyda John Rees.

9 Cymry'r Eglwysnewydd. Capel y Methodistiaid. Noson yng ngofal yr aelodau.

12 Merched y Wawr, Cangen y Garth. Sgwrs gan Minwel Tibbott yng Nghanolfan y BBC. 'Teg oedd gwasanaeth cegin'.

19 Clwb y Dwrlyn. Arferion Caru yng nghwmni Catrin Stevens. Clwb Rygbi Pentyrch.

Chwefror:

13 Merched y Wawr, Festri Minny Street, 7.30 p.m. Gwanwyn yn yr Ardd gyda Patrick a Carys Whelan.

13 Cymry'r Eglwysnewydd, Capel y Methodistiaid, gyda'r Dr. Wynne Samuel.

17 Cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant gyda Chôr Orffiws Treforys, Helen Field a Dennis O'Neill. Yr elw at Eisteddfod yr Urdd '85. O dan nawdd Cymdeithasau Rhieni Ysgolion Cymraeg Y Wern a Melin Gruffydd.

Mawrth

1 Cinio Gŵyl Ddewi, Cyfeillion Y Triban. Manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

---

Llongyfarchiadau i Hywel Gwynfryn ac Anya ar enedigaeth Owain Dafydd.



# DIOLCH

Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Mrs. Myfanwy Jarman a'r teulu am gyfeirio unrhyw roddion a ddaeth i law er cof am Emrys Jarman i'r Dinesydd. Mae amryw wedi cyfrannu'n hael i'r Gronfa hon eisioes ac mae rhoddion yn dal i gael eu derbyn. Dylid cyfeirio unrhyw roddion i gofio am ein cyn-drysorydd i Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd.

-------

---

CÂN I GYMRU '84

Eleni eto mae BBC Cymru yn chwilio am 'Gân i Gymru'; cân a fydd yn ein cynrychioli yn yr Ŵyl Pan Geltaidd yng Nghilarni fis Mai nesaf. Geiriau ac alaw wreiddiol yw'r gofynion, a rheini heb eu cyhoeddi na'u perfformio'n gyhoeddus o'r blaen. Gallant fod o waith unigolyn neu'n gywaith. (Ni chaniateir i aelodau o staff y BBC i gystadlu). Y wobr i'r gân fuddugol? Wel, yn ogystal a'r fraint o gynrychioli Cymru yn Iwerddon, mae 'na wobr ariannol o £500, ac eleni am y tro cyntaf rhoddir y dewis i'r cyfansoddwr/wyr i berfformio'i gwaith os mai dyna yw eu dymuniad.

Darlledir y gystadleuaeth i ddewis y gân fuddugol yn fyw ar S4C ac ar Radio Cymru ar Fawrth y cyntaf 1984. Felly, mae angen y cyfansoddiadau ar gaset, tap neu lawysgrif erbyn Ionawr 31. Dylid anfon cyfansoddiadau gydag enw, cyfeiriad a rhif ffôn i - 'Cân i Gymru', BBC, Llandaf, Caerdydd. CF5 2YQ.


**GRIFFITH & EVANS**

**SWYDDFA'R POST,**

**105 Heol Ddwyreiniol y Bontfaen**

**(gyferbyn ag Ysbyty Dewi Sant)**

***Losins, Sigarets, Baco, Cylchgronau,***

***Cardiau o bob math, Papurau,***

***Hufen Iâ, Creision. NADOLIG LLAWEN!***

OLIFAR Y CYMRO CYMRAEG

Ar Dachwedd 16,17,18, bu Ysgol Uwchradd Glan-taf yn perfformio Olifar o waith Lionel Bart, yn y Gymraeg, wrth reswm.

Gochelaf rhag dweud "disgyblion" oherwydd ni allai cynhyrchiad fel hwn lwyddo heb gydweithrediad pawb, a hynny, gallaf ddyfalu, yn ystod oriau "rhydd" yn amlach na pheidio.

Mae'n debyg i rai o'r bobl hyn ofyn iddyn nhw'u hunain fwy nag unwaith, "Ydy'r cyfan yn werth y drafferth?" Gall y Dinesydd ddweud, "Oedd, ar bob cyfrif."

Dechreuodd y perfformiad gyda'r llwyfan ymron yn wag. Yna, ar arch y gerddorfa fechan yn ei chornel, daeth y tlodion (rhai graenus, rhaid cyfaddef) o bob twll a chornel fel llygod Hamelin. Llanwyd y neuadd â'u canu heintus a brwdfrydig ac roedd y symud crefftus yn coroni'r cyfan.

Cadwyd at y safon yma o'r dechrau i'r diwedd. Ac ystyried yn anawsterau, llwyddodd yr actorion ifanc yn dda i bortreadu'r cymeriadau dieflig a fynychaistrydoedd Llundain slawer dydd.

Yn anffodus, roedd rhaid iddyn nhw ddibynnu'n aml ar offer sain symudol a oedd nawr ac yn y man yn gwrthod gweithio. Mae'n anodd cadw tensiwn dramatig pan fo actiwr yn gorfod plygu i godi meic o fwrdd neu ei dderbyn o law rhywun a ddaw "o rywle". Roedd hyn yn anochel wrth gwrs oherwydd prin y gellid disgwyl i'r lleisiau ifanc gario mewn neuadd na chafodd ei chynllunio ar gyfer perfformio gwaith mor uchelgeisiol.

Annhegwch â'r tîm fyddai tynnu sylw at unrhyw berfformiadau unigol, er bod digon ohonyn nhw. Roedd y pwyslais drwyddi draw ar gydweithredu, gyda gwisgo cast a llwyfan, gydag actio, symud, canu, trin yr offerynnau a'r holl offer arall ac ati. Carwid y brwdfrydedd i'r symudiadau olaf pan gerddai'r tlodion (graenus) i felodi'r miwsig o'n golwg gan ddwyn y lledrith i ben.

Yn ystod yr egwyl roedd cyfle i brynu lluniaeth, rhywbeth i'w yfed a thlysau o sawl math, gyda'r holl elw'n mynd at yr "achos" gyda Glan-taf, fel Olifar, yn gofyn am "ragor" ac yn ei gael, yn wir haeddiannol.

Buasai'n dda bod wedi cael ymateb y rhieni di-Gymraeg a oedd yn britho'r gynulleidfa. Mae'n siŵr na fedrai nifer ohonyn nhw ddeall yr un gair a lefarai eu plant eu hunain.

Yn wir, pe bai natur bardd ynof, buaswn wedi gallu edrych ar y perfformiad hwn fel rhywbeth hollol symbolaidd. Meddwl am rai o Gymry Caerdydd, amser maith yn



ôl yn apelio am "ragor" o'u hiaith eu hunain yn eu dinas, ac yn ei gael ar ôl llawer o frwydro caled.

Gresyn na fyddent wedi gweld canlyniad y gofyn yma. Rwy'n siŵr y byddai un gair yn tanseilio pob gair o ganmoliaeth. "Rhagor!"

WHARE TEG

Mae'n rhaid bod goleuadau'r ddinas yn llachar iawn y dyddiau hyn i fedru denu cynifer o gwmniau drama i'r gornel fach yma...a hynny o bob cwr o'r wlad. Yn ystod y pedair neu bum wythnos ddiwetha bu Cwmni Bara Caws, Brith Gof, Cwmni Theatr Cymru a Chwmni Cyfri Tri i gyd yn ymweld â Chaerdydd gan gynnig gwledd o brofiadau theatrig i ni a chan berfformio ambell dro gerbron cynylleidfaoedd digon tila eu maint.
Ac ynghanol yr holl ddiwydrwydd dŵad 'ma, dyma gwmni newydd sbon yn codi'i ben, a hynny o fewn y brifddinas hithau. Enw'r cwmni yw WHARE TEG a hwn, heb os nac onibai, yw un o'r datblygiadau pwysica a mwya arwyddocaol ym myd y theatr Gymraeg ers tro byd. Rhyw lond dwrn o actorion a dramodwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am sefydlu'r cwmni, gyda phawb yn cynnig eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Cwmni o Gaerdydd felly, yn gweithio yng Nghaerdydd ac yn yr ardal o gwmpas Caerdydd.
Eisioes gwelwyd perfformio dwy ddrama gan y cwmni - dwy ddrama newydd sbon - y naill o'r enw LLYGAD Y MYNYDD gan David Lyn a'r llall yn dwyn y teitl GYDA LLAW gan Michael Povey. Pedwar o actorion yn unig oedd yn cymryd rhan yn y ddwy ddrama: Dafydd Hywel, Christine Pritchard, Ernest Evans a Siwan Jones, gyda nifer o enwau adnabyddus eraill yn gweithio y tu ôl i'r llwyfan fel petai.

Felly mae achau'r Cwmni'n ddigon cyfoethog, ond beth am y perfformiadau cynta 'ma draw yn Chapter yn ddiweddar. Dwy gomedi yw LLYGAD Y MYNYDD a GYDA LLAW ond fel sy'n weddus i gomediau da ceir llawer mwy na hiwmor a ffraethineb ynddynt. Dwi ddim yn honni fy mod wedi deall popeth am LYGAD Y MYNYDD ond roedd hi'n ddrama ddifyr iawn yn llinach theatr yr abswrd ac yn brofiad theatrig cyffrous - a chafwyd perfformiadau bythgofiadwy gan Dafydd Hywel a Christine Pritchard fel y gŵr a gwraig. Drama glyfar iawn oedd GYDA LLAW, ac fel y ddrama gynta, roedd yr amseru a'r llinellau bachog yn hynod effeithiol. Roedd hon yn ddrama fwy confensiynol mae'n debyg gyda deialog gyhyrog esmwyth, ac oherwydd camp y sgrifennu nid yw'r tro sydd yng nghwt y ddrama yn cael ei ddatgelu tan y diwedd yn deg - a gallaf eich sicrhau fod y diwedd yn annisgwyl iawn.

Felly, dwy ddrama ddifyg a dau berfformiad campus gan bob un o'r actorion. Edrychaf ymlaen yn eiddgar at gynhyrchiad nesa'r cwmni, ond yn y cyfamser croeso mawr i WHARE TEG.

Ioan Kidd.

CWMNI BRITH GOF YN Y CHAPTER.

-------

Daw BRITH GOF i Gaerdydd eto ym mis Rhagfyr, gyda sioe newydd, sef YMFUDWYR, ei sioe ffurfiol gyntaf ers Gernika! a gafodd glod mawr gan gynulleidfaoedd y brifddinas pan y'i perfformiwyd ym mis Medi eleni. Dechreubwynt YMFUDWYR yw profiadau'r Cymry a ymfudodd i'r Amerig yn y ganrif ddiwethaf; canolbwyntia'r cyflwyniad dwys hwn ar yr hiraeth a ddaw o golli gwreiddiau.
Dyma fanylion am y perfformiadau :

Ymfudwyr: THEATR CHAPTER, Treganna, RHAGFYR 13-17, 8 p.m. Tocynnau £3.00, Swyddfa docynnau Chapter, ffôn (0222) 396061

Profiad theatrig cofiadwy gan BRITH GOF, un o'r cwmniau theatr mwyaf gwreiddiol a chyffrous sy'n gweithio yng Nghymru heddiw.

*CALON LÂN*

**Da gan Philip Morgan a'i Fab, Cyf., allu dweud bod erbyn hyn ddau win bord 'Calon Lân'. Cyfuniad o winoedd Ewropéaidd wedi'i botelu yn yr Almaen ac o naws tebyg i Mosel yw'r 'Calon Lân' gwyn, a fu ar y farchnad ers blwyddyn a mwy. Cynnyrch Ffrainc yw'r 'Calon Lân' coch sydd newydd ddod ar y farchnad. Prif bwrpas cyflwyno'r gwinoedd hyn wedi'u labelu yn Gymraeg yw rhoi boddhad i'r bobl hynny y mae hi'n iaith gyntaf iddynt neu sy'n gyfarwydd â hi. Pris manwerth potelaid 70 centilitren o'r naill neu'r llall yw tua £2.00**




*MYFANWY*

**Gwin newydd arall â label Cymraeg arno ar resti Philip Morgan a'i Fab yw 'Myfanwy', gwin sych byrlymus a ddaw o Ffrainc. Pris manwerth potelaid 75 centilitren o'r gwin hwn fydd tua £3.45.**

*Myfanwy*

*Gwin sych byrlymus wedi'i ysbrydoli gan un o'r caneuon serch hyfrytaf.*

Mewnforiwyd gan PHILIP MORGAN a'i Fab, Caerdydd.

CYNNYRCH FFRAINC O.V.M. NÉGOCIANT A BORDEAUX 75cl.

**Gellir prynu'r gwinoedd yn y siopau gwin canlynol hefyd : ASDA, CARREFOUR, GALLEON WINE, MUNDAYS, SPAR, TESCO, a WINESELLERS.**

**Philip Morgan a'i Fab Cyf., (sef. 1929)**
Prif Farsiandiwr Gwin Caerdydd
126, Wyndham Crescent, Caerdydd, Teleffon 31570

**HTV**

## Ysgrifenyddes - Pennaeth Materion Cyfoes

Mae arnom angen ysgrifenyddes effeithiol a deallus i weithio i Bennaeth Materion Cyfoes yn Y Ganolfan Deledu yng Nghaerdydd. Y mae'r swydd hon yn arbennig o addas ar gyfer person gyda rhai blynyddoedd o brofiad o weithio ar lefel uwch, ac sy'n mwynhau rhedeg swyddfa drefnus hyd yn oed ar adegau eithriadol o brysur. Mae hiwmor yn angenrheidiol yn ogystal â gallu ysgrifennyddol o'r radd flaenaf.

Cyflog, yn cynnwys atodiadau, £6,100 y flwyddyn ynghyd â manteision gweithio ardderchog.

**Dylai ymgeiswyr cymwys ysgrifennu am ffurflen gais, gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig, a nodi y cyfeirnod DI/281 at Y Rheolwr Staffio, HTV Wales Cyf., Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF1 9XL.**

*YR YDYM YN GYFLOGWYR CYFLE CYFARTAL*



**ARCHEBWCH EICH CINIO NADOLIG 'NAWR**

**TWRCI, FFOWL, GWYDD,**

**CIG MOCH NEU GIG EIDION**

## RALPH PERKINS

## A'I FAB YM MARCHNADOEDD CAERDYDD A PHONTYRIDD

**Ffôn: Caerdydd 24494, Pontypridd 402266**

**"Llon fo eich Nadolig"**

# HARDING'S

**210 a 226, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen, Treganna, Caerdydd**

DEWIS HELAETH O GARDIAU CYFARCH, PEN-BLWYDD, BLWYDDIANT, BEDYDD, CONFFIRMASIWN, DYWEDDÏAD, PRIODAS

**CARDIAU CYFARCH CYMRAEG**
**CARDIAU NADOLIG CYMRAEG**

TORRIR POB MATH O ALLWEDD
DEWIS O NWYDDAU METEL A NWYDDAU CARTREF

HTV

## Golygydd Sgriptiau (Rhaglenni Ysgafn)

Gwahoddir ceisiadau am y swydd uchod, a fydd yn swydd cytundeb tri mis i gychwyn. Disgwylir i'r ymgeiswyr fod â phrofiad o ysgrifennu deunydd ysgafn ar gyfer plant ac oedolion, ac i ddeall anghenion y ddwy garfan wrth olygu ac adolygu gwaith ysgrifenedig pobl eraill.

Cyflog i'w drafod.

**Anfoner manylion llawn ynglŷn ag addysg a gyrfa at: Y Rheolwr Staffio, HTV Wales, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF1 9XL.**

*RHYDD HTV GYFLE CYFARTAL I BAWB*

## TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn)

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD.

I'W CHAEL AR RENT

TELYN ROEGAIDD

(ERRARD)

£10 y mis.

Am fanylion pellach,
ffoniwch Caerdydd 564794

YN EISIAU

PERSON I OFALU AM FACHGEN 3½ OED YN ARDAL PONTCANNA.

1 diwrnod yr wythnos (Iau)

12.00 a.m. - 11.30 p.m.

(ac ar adegau achlysurol)

Ffôn: 387189

YN EISIAU

Person i ofalu am fabi
(4 mis oed) yn ddyddiol,
Llun - Gwener
yn Radyr
I ddechrau yn Ionawr.
Am fanylion pellach,
ffoniwch Caerdydd 843963

# Y SILFF LYFRAU

D.Geraint Lewis ac eraill (gol.) AWN I FETHLEHEM, Gwasg Pantycelyn, £4.50.

-----

Yn dilyn argraffiad alawon a geiriau'r Carolau Nadolig y llynedd, mawr oedd y disgwyl am y gyfrol Cerddoriaeth Lawn. A dyma'r gyfrol honno wedi cyrraedd y siopau mewn da bryd ar gyfer y Nadolig.

Casgliad cynhwysfawr o garolau a chaneuon crefyddol ar gyfer y Nadolig i blant sydd yma. Mae'n gasgliad amrywiol - ceir hen ffefrynnau traddodiadol, carolau cyfoes a charolau wedi'u gosod ar gyfer Cerdd Dant. Mae yma benillion cyfoes i'w canu ar donau adnabyddus a chynhwysir gwahanol fersiynau o'r carolau mwyaf poblogaidd hefyd.

Ceir amrywiaeth diddorol ar gyfer gwahanol oedrannau - tonau syml a swynol ar gyfer y plant lleiaf ynghyd â threfniadau addas ar gyfer y plant hŷn.
Mae'r cyfeiliant i'r carolau wedi ei gadw mor syml a dirodres ag yr oedd modd.

Mae'r diwyg yn lân a'r clawr yn hynod ddeniadol. Rwy'n sicr y bydd croeso mawr i'r gyfrol.

Enid M. Hughes.

Gwenno Hywyd (addas.) CYFRES Y CYFARWYDD, Gwasg Gomer, £1.50 yr un.

-----

Dyma bedair cyfrol liwgar, pob un â'Hud a Lledrith' yn rhan o'i theitl. Mae chwe stori ymhob cyfrol, rhai yn fwy adnabyddus na'i gilydd.

Yn 'Anrheg Hud a Lledrith' ceir iaith rywiog a digonedd o briod-ddulliau yn y stori 'Gwely'r Dywysoges'. Yn 'Y Tri Mochyn Bach' gwneir peth defnydd, ond nid gormod, o dafodiaith a braf yw gweld elfennau cignoeth y stori hon heb eu glastwreiddio.

Mae diffyg eglurdeb yn y mynegiant yn amharu ar 'Yr Hugan Fach Goch' a digalon oedd gweld 'cwyd' yn lle 'cod' yn 'Rympelstiltscin'. Braf, felly, oedd darllen fersiwn hyfryd o'r 'Hwyaden Fach Hyll'.

Cyfrol siomedig yw 'Gwledd Hud a Lledrith', yn bennaf am fod y storiau yn rhai gwan. Mae 'Tywysogesau'r Ddawns' yn iawn ond braidd yn rhy gyfarwydd erbyn hyn ac mae 'Y Dywysoges Hir ei Chwsg', er yn raenus, yn hynod foel, fel bwletin newyddion.

Yn 'Hwyl Hud a Lledrith' mae'r awdur yn pentyrru priod-ddulliau yn 'Y Ras Fawr', gan droi stori foeswersol yn fwy addysglyd eto. Stori ddifyr yw 'Y Feipen Anferth' a cheir fersiwn hyfryd o 'Eira Wen a'r Saith Corrach'. Mae llawer gormod o ailadrodd yn 'Elen Benfelen a'r Tri Arth' ond mae 'Jac a'i Goeden Ffa' yn fywiog iawn. Mae amlder priod-ddulliau yn nodweddu 'Yr Wydd Euraid', 'Y Crochan Hud' ac 'Aladin' yn 'Rhyfeddod Hud a Lledrith' ond mae'r storiau yn ddigon cryf i wrthsefyll y driniaeth hon. Stori od yw 'Yr Hogyn Sinsir' ond un fywiog serch hynny ac mae digon o sbort a sbri yn 'Wil Wirion'.

Mae clawr pob cyfrol yn werth ei weld. Casglwyd holl gymderiadau'r storiau ynghyd a gall y plant chwilio am eu ffedrynnau a chael hwyl wrth wneud hynny.

Philip Wyn Jones.

Geraint H. Jenkins, DEWCH I CHWARAE PELDROED, Y Lolfa £1.65
Nia Wyn Williams, DEWCH I CHWARAE TENIS, Y Lolfa, £1.65
Eric Hill (addas. Dilwen M. Evans) SMOT YN DYSGU RHIFO, BLWYDDYN BRYSUR SMOTH, FAINT O'R GLOCH YDY HI SMOT? Gwasg Gomer, 60c. yr un

Croeso i'r ddau lyfr cyntaf i'w cyhoeddi mewn cyfres o ddeg llyfryn hyfforddi yn y chwaraeon mwyaf poblogaidd. Geraint Jenkins yr hanesydd o Goleg Prifysgol Cymru Aberystwyth a'i wraig Ann Ffrancon yw golygyddion y gyfres.

Nid athronyddu Jimmy Hillaidd a geir yn y gyfrol gyntaf ond cyfarwyddyd syml a synhwyrol. Gellir ystyried y llyfr yn werslyfr peldroed ac mae ymarferiadau i'r disgybl eu cyflawni ar ddiwedd pob pennod.

Gêm hollol wahanol yw tenis ond yr un yw'r cynghorion yn yr ail gyfrol - ymarfer cyson a thrylwyr sy'n sicrhau boddhad a llwyddiant wrth chwarae unrhyw gêm. Diddorol dros ben yw'r bennod ar serfio, sy'n pwysleisio mai serfio hyderus a chywir yw'r arwydd gyntaf o chwaraewr addawol. Defnyddir cyfres o luniau i ddarlunio techneg y symudiad o'i ddechrau i'w ddiwedd.

Edrychwn ymlaen at weld cyhoeddi gweddill y gyfres arloesol hon.

------

Chi bach hoffus a phrysur yw Smot a bydd plant sy'n dechrau dysgu darllen yn sicr o fwynhau dilyn ei hynt a'i helynt.

Dyma hefyd ddeunydd atodol gwerthfawr ar gyfer y gwersi mathemateg o safbwynt rhifo, dweud faint o'r gloch ar yr awr a dysgu trefn misoedd y flwyddyn.

Bob yn ail dudalen ym mhob llyfr mae cyfle i liwio'r lluniau. Wrth i Smot ddysgu rhifo cawn fynd gydag ef am dro drwy'r coed a chwrdd ag un wiwer, dwy gwningen, tri llwynog ac ati hyd at ddeuddeg (ie, deuddeg yn hytrach nag un deg dau, sylwer) o adar bach. Yn yr ail lyfr cawn dreulio deuddeg awr yng nghwmni Smot a gofyn iddo bob awr faint ydy hi o'r gloch.

Mae Blwyddyn Brysur Smot â thudalen i bob mis a chawn fynd ati i liwio llun yr hen Smot yn y pwll nofio ym mis Mehefin, yn dathlu ei benblwydd ym mis Hydref neu'n pacio anrhegion Nadolig ym mis Rhagfyr. Pleser yw cael bod yn ei gwmni.

Huw Roberts.

---

Mae dosbarth Cadw'n Heini i'r dynion yn dal i fynd o nerth i nerth er gwaethaf y lleoliad amhoblogaidd yn Ysgol Glantaf. Colled fawr oedd colli Arwel Owen wedi iddo fod yn athro poblogaidd iawn am bedair blynedd. Mae'n edrych yn debyg iawn ar hyn o bryd fod y dosbarth wedi cael athro newydd parhaol o'r diwedd, sef Lynn Davies o Adran Chwaraeon y BBC. Hwyl fawr iddo. Bydd croeso i aelodau newydd i'r dosbarth ar ôl y Nadolig, yn enwedig i chi ddynion dros eich 40 oed!

# YR AGORIAD

DWEUD BACH Leigh Verrill-Rhys

"Enghraifft i'r Byd!"

Yn ddiweddar, rwyf wedi bod yn gwylio'r gyfres "How to be Celtic" - teitl twp ond dyna ni! - ar S4C. Hyd yn hyn mae dwy raglen o'r pump wedi'u dangos; un ar Lydaw a'r llall ar Iwerddon. Erbyn i'r geiriau hyn ymddangos, bydd y gyfres wedi dod i ben. Wrth gwrs, y drydedd raglen fydd o'r diddordeb mwyaf i ni yng Nghymru. Ond hyd yn hyn, mae Cymru wedi cael sylw yn y ddwy gyntaf fel enghraifft i weddill y byd Celtaidd.

O ran cryfder yr iaith a llwyddiant yr ymdrechion i ennill (a chadw) statws swyddogol i'r iaith, Cymru ydy'r enghraifft orau. Dim ond yng Nghymru mae'r iaith yn cael ei defnyddio'n ddyddiol, ymhob man, fel mamiaith yr hen a'r ifanc.

Yn Iwerddon, mae statws swyddogol i'r Wyddeleg ond, yn ôl y rhaglen, does dim llawer o'r iaith ar y teledu neu'r radio neu yn cael ei siarad ymysg y bobl. Does dim statws o gwbl i'r Llydaweg ac mae'r henoed yn gwrthod siarad â'u plant yn yr iaith maen nhw'n ei ystyried yn ddiwerth - un agwedd sy'n diflannu erbyn hyn yng Nghymru.

Un nodwedd Celtaidd mae'r gyfres yn methu trafod hyd yn hyn ydy unigrwydd cryf y Celt ei hunan. Does dim siawns caneri y bydd neb yn llwyddo i ddweud wrth neb sut i achub yr iaith yn y wlad yma. Ac os ydy hynny yn wir ymysg y Cymru, mae'n wir ymysg gweddill y Celt-iaid, siwr o fod!

Er bod yr iaith yn gryf ymysg y Cymry Cymraeg, rwyf wedi sylwi bod un grŵp bach yn y wlad yma sydd yn erbyn Cymraeg yn llwyr - na, nid y Saeson, ond rhai Cymru di-Gymraeg. Fel y Gwyddelog di-Wyddeleg, maen nhw'n methu gweld pwysigrwydd yr iaith yn eu diwylliant, neu maen nhw'n teimlo cywilydd eu bod yn ddi-Gymraeg. Dydw i erioed wedi clywed y fath gasineb sydd gan rhai Cymry di-Gymraeg at iaith eu mam-gu a'r tad-cu. Efallai bod yr un Sais ambell waith yn taflu cerrig yn y 'Western Mail' ond mae ambell Gymro di-Gymraeg yn taflu ffrwydron! Ond eto, oherwydd cefnogaeth nifer fawr ohonynt, mae'r ysgolion Cymraeg yn tyfu.

Os ydy'r Cymry Cymraeg a di-Gymraeg yn tynnu'r iaith rhyngddynt, mae'r Hwntws a'r Gogs yn ei thynnu fel cwn dros asgwrn! Ond gyda chymaint o dynnu, mae'n sioc mawr i sylweddoli bod y byd Celtaidd yn edrych i fyny at Gymru. Fe fydd yn ddiddorol i glywed beth fydd gan y gyfres i'w ddweud am y sefyllfa yng Nghymru o'i chymharu â'r Alban, Cernyw ac Ynys Manaw.

Geirfa:
o ran - from the view point of
ystyried - to consider
nodwedd - characteristic
casindeb - hatred
ffrwydryn - bomb

---

Dydd Sadwrn, Medi 24, sefydlwyd mudiad 'Cymdeithas Gwarchodwyr De Morgannwg. Prif nod y gymdeithas yw bod yn gymorth a chefn i'r sawl sy'n gofalu am y methedig (corfforol neu feddyliol), yr anabl, neu unrhyw un sy'n dioddef o afiechyd, sy'n ei gadw'n gaeth i'w gartref neu'n eisiau gofal parhaus, beth bynnag ei oed.


Ceisir annog y gwarchodwyr i i sylweddoli bod eu anghenion hwy yr un mor bwysig ag anghenion y claf.

Gobeithir dosbarthu cylch-lythyr yn rheolaidd yn dwyn gwybodaeth o'r adnoddau a'r cymorth ymarferol sydd ar gael. Cylchlythyr lleol fydd hwn, gyda gwybodaeth am yr adnoddau ar gael yn y gymdogaeth, fel rhifau ffôn y gweithwyr cymdeith-asol a gwybodaeth gyffredinol, e.e. sut i gynnig am grantiau i addasu ystafelloedd neu dai lle gall y claf aros dros dro, a pha gymorth ariannol sy'n ddyledus iddynt.

Os nad ydych yn ofalwr eich hun, efallai eich bod yn adnabod ffrind neu gymydog mewn sefyllfa debyg. Os ydych, a fyddech mor garedig â dwyn eu sylw at y mudiad hwn?

Fel yr ysgrifennodd un atom, "Mae'n galondid mawr i mi fod rhywun yn meddwl amdanom". Pris ymaelodi yw £2 y flwyddyn. Ein gobaith yw ffurfio cangh-ennau ymhob rhan o'r sir.

Os am ragor o wybodaeth, danfonwch ataf i:
Mrs. Gwenda Morgan,
9 Heol Llanishen Fach,
Rhiwbeina, Caerdydd.
Ffôn: 693848




Fe ofynnon ni, Do'n wir
Fwy nag unwaith
Am ryw nodyn bach o niws -
Ond dim adwaith!
Mewn mawr ffydd wynebwn ni
Flwyddyn nesa,
Y bydd rheini i gyd yn dod,
Haleliwia!

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

LYNN JONES

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

Buddsoddiadau Yswiriant Bywyd Pensiynau

## PENWYTHNOS YN KENILWORTH

Ychydig amser yn ôl aeth Ken a minnau a chriw o tua 40 ohonom am benwythnos i Kenilworth. Penwythnos wedi ei threfnu i wragedd a ffrindiau y bechgyn a gafodd drawsblaniad calon yn ysbyty Harefield oedd hon. Roeddem ni ein dau am fynd yn y car gyda Derrick a Beryl Morris o Abertawe, fe fyddai'r daith yn fwy dymunol, a'r amser yn mynd yn gyflymach, ac felly y bu hi. Ar ôl cyrraedd y gwesty, cael pryd da o fwyd, ac wedyn cael sgwrs hir gyda ffrindiau, a chael sgwrs yn Gymraeg gyda Vivian ac Olwen Jones o Langefni. "Sut ych chi'n teimlo", medde fe wrth Vivian. "O champion neno'r tad", oedd yr ateb. Olwen yn sôn fel roeddent wedi cyfarfod â ffrindiau i ni o Gaerdydd a oedd erbyn hyn wedi symud i fyw i Langefni.

Roedd yn oriau mân y bore arnom yn mynd i'n gwelyau, ond rhaid dweud bod y bechgyn dipyn fwy bywiog na'r gwragedd y bore canlynol. Dydd Sadwrn, diwrnod i bawb fynd i'r lle y mynno, a dyma wyth ohonom ni'n penderfynu mynd i Coventry. Yr oedd Ken a minnau yn awyddus iawn i gael gweld yr Eglwys Gadeiriol. Roeddem wedi clywed rhai pobl yn dweud nad oedden nhw'n hoffi'r adeilad, ei fod yn rhy fodern a phopeth yno yn eu gadael yn ddi-deimlad. Ond i mi, cymhariaeth trwy brofiad a welais rhwng yr hen eglwys a'r eglwys newydd, a bywyd y bechgyn. Roedd yr hen adeilad fel cragen wag yn oer a difywyd, yn llwyd yr olwg a dim ond yn bod, fel y bechgyn cyn y trawsblaniad. Wnaeth yr adeilad hwn yr un argraff arna i, dim ond y geiriau uwchben yr allor "God Forgive". Ond ar ôl i mi fynd i'r adeilad newydd, cerddai ias drwy fy ngorff - dyma lle'r oedd llawenydd, a bywyd, a phopeth yn lliwgar a newydd. A fedrwn ni wneud dim ond syllu a rhyfeddu, yn enwedig ar y ffenestri lliw oedd ar y ddwy ochr yn arwain at yr allor. Roedd y rhain mewn gwahanol liwiau, y cyntaf yn cynrychioli cread bywyd, yr ail ieuenctid, y trydydd canol oed, y pedwerydd henoed, a'r olaf - y bywyd tragwyddol. Wrth syllu ar y rhain dywedodd un o'r bechgyn - gan gyfeirio at yr olaf; dyma'r ffenestr ddylai fod yn ein cynrychioli ni - ond gan ein bod wedi cael ail gynnig yr ydym wedi mynd yn ôl ddwy ffenestr. Sylwais fod pob un ohonom yn cerdded ar ei ben ei hun, a phawb ohonom ni gyda'i feddyliau personol. Ar ôl cyrraedd pen uchaf yr eglwys gwelais "The Ladies Chapel". Roeddem yn syllu ar Grist drwy'r goron ddrain. Y cwpan yn ei law a'r disgyblion yn cysgu yn eu tristwch. Sawl gwaith y gwnes ddweud yr adnod "Aed y Cwpan hwn heibio" pan oeddem yn aros am yr alwad i fynd i Harefield. Meddyliais am Grist yn rhoi ei fywyd trosom i ni gael bywyd tragwyddol a rhywun yn rhywle wedi marw i'r bechgyn hyn gael bywyd. Medde un o'r gwragedd, "Rhaid i ni fynd i weddio", ac felly y bu hi. Gweddi bersonol oedd gan bob un ohonom, ond un o ddiolchgarwch siŵr iawn. Fel y dywedais, roedd popeth yn fodern ac yn apelio yn fawr ataf i, achos onid rhywbeth newydd a modern yw'r wyrth sy'n digwydd yn Harefield. A sôn am bethau newydd, dwn i ddim a ydych chi'r gwragedd wedi darllen yr erthygl yn 'Woman's World' y mis hwn sy'n sôn am Jimmy Greenhall - un o fechgyn Harefield. Ef yw'r bachgen cyntaf yn y byd i genhedlu plentyn ar ôl y driniaeth, ac felly nid yn unig mae e wedi cael bywyd newydd ond hefyd wedi rhoi bywyd i'w ferch fach Lauren Jane. Gyda llaw mae perthnasau gan Lauren yng Nghaerffili. A wedyn dyna i chi Tripta - y ferch gyntaf yn Ewrop i gael triniaeth lwyddiannus o "piggy-back" - lle mae'r galon newydd yn helpu'r hen galon.

I fynd yn ôl ar nos Sadwrn - cael cinio hyfryd tua 7 o'r gloch, ac yna ychydig o siarad a wedyn disco. Gyda llaw, roedd y Cadeirydd wedi dod â dwy fflag o'r Ddraig Goch - gan fod tri o'r Cymry yno ac un arall wedi cael triniaeth lwyddiannus yn yr ysbyty y noson honno. Pawb yn dawnsio drwy'r nos. Weles i neb a chymaint o frwdfrydedd ac o egni na'r bechgyn hyn. Yn y cwmni, roedd bachgen ifanc tua 20 oed, a dyma a ddywedodd ef. "Pan ofynnodd fy ffrind i mi fynd gyda hi i Gemau'r Transplants, teimlais nad oedd arna i eisiau mynd gyda chriw o fechgyn canol oed difywyd, ond mynd a wnes, ac i ddweud y gwir, y fi oedd wedi blino ac nid y nhw. A phan ddaeth sôn am y penwythnos hon - fi oedd y cyntaf i roi fy enw i lawr. Fyddwn i'n ddigon bodlon cael y driniaeth", medde fe, "dim ond i fi gael bod fel chi".

Anghofia i byth mo'r wefr a gefais pan ddaeth y noson i ben a phawb ohonom ni'n fechgyn, gwragedd, ffrindiau a ffrindiau o ysbyty Harefield yn cydio yn nwylo ein gilydd a chanu gydag angerdd

"When you go through a storm
Keep your head up high,
And don't be afraid of the dark"

a wedyn

"Walk on, Walk on
With hope in your heart,
And you'll never walk alone,
You'll never walk alone".

Gwefreiddiol yn wir.

Daeth bore Sul lawer yn rhy fuan a rhaid oedd ffarwelio a ffrindiau, ac edrych ymlaen at y tro nesaf y byddwn yn cwrdd.

I Ken a minnau, yr oedd y penwythnos wedi bod yn un hapus, ddifyr a bendithiol, ac yng ngeiriau'r adnod, "Gwnaethpwyd pob peth yn newydd".

Anne Innes.

---

Welsoch chi arwydd Cymraeg yn Neuadd Dewi Sant eto? Naddo debyg. Mae'r arwyddion hyn yn hir yn dod. Does ryfedd yn y byd fod cwmni mawr fel Sainsbury's ddim yn gweld yr angen am arwyddion dwyieithog gan nad oes arweiniad oddi wrth neuadd gyngerdd y brifddinas. (A gyda llaw, faint o groeso a gafodd eich siec Gymraeg yn Sainsbury's)?

----

Mae'n chwith iawn heb Ffair Nadolig y Blaid eleni. Dyna dorri ar draddodiad blynyddoedd. Mae 'na sôn am ymdrech wahanol tuag adeg Gŵyl Ddewi. Fe gawn fwy o fanylion yn nes ymlaen mae'n siŵr.

Rhowch gyfle i bobl fynegi barn arnoch yn ddi-enw a gallwch fod yn siwr na chlywch weniaith. Felly y bu hi i S4C gyda'i holiadur a gyhoeddodd y Dinesydd ym mis Medi. A da hynny.

Dyma rai o'r prif gasgliadau a'n trawof wrth ddadansoddi'r ugeiniau o atebion a ddaeth i law. Tua 55% ohonoch yn gwylio 8 awr neu fwy o raglenni Cymraeg bob wythnos a thua'r un faint yn cael manylion am y rhaglenni o'r papur dyddiol neu'r Radio Times.

Eich chwe hoff raglen yn nhrefn eu poblogrwydd oedd HAPNOD, Y BYD AR BEDWAR, CEFN GWLAD, POBOL Y CWM, NEWYDDION SAITH a MIL O ALWADAU. Diddorol sylwi ar safle uchel BYD AR BEDWAR - teyrnged i lwyddiant y rhaglen o ran cynnwys a chyflwyniad. Nid yw rhaglenni materion cyfoes yn arfer gwneud yn dda iawn yn y 'ratings'.

Rhaglenni a esgeulusir gan S4C? Dramau a chomediau oedd y prif ddewis yma, ond roedd galw hefyd am raglenni o ddiddordeb i wahanol leiafrifoedd.

Er i NEWYDDION SAITH gael ei henwi fel hoff raglen amryw, dyma'r rhaglen a ddenodd y feirniadaeth lymaf hefyd. Dros 50% ohonoch yn cwyno amdani. Roedd bron pawb (hyd yn oed rhai a restrodd y rhaglen fel ei hoff raglen) yn gytûn fod yr amseriad yn anghywir. Cwynwyd fod y cyflwyniad yn ddiflas - nid yn gymaint o ran y bobl ond o ran technegau cyfoes fel fideo a'r defnydd o graffeg ac ati. Mae natur rhy hamddenol i'r cyfan, fel petai pawb sy'n ymwneud â hi yn gwybod mai cawl eildwym yw'r cyfan."Ni thrafferthir rhoi llun o ryw fath ar y sgrîn wrth i'r penawdau gael eu cyhoeddi hyd yn oed", yng ngeiriau un ohonoch. Crybwyllodd amryw anfodlonrwydd ar y cyd-bwysedd rhwng newyddion Cymru a newyddion y byd. Gwnaeth un y pwynt dilys iawn, sef fod ambell eitem pur ddiddorol (fel un yn sôn am lanhau meini Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi) yn ymddangos yn naturiol hollol ar gylchgrawn newyddion fel yr hen HEDDIW, ond yn taro'n chwithig braidd ar raglen o newyddion caled.

Ar ôl blwyddyn o gwynion o wahanol fannau, gresyn na fu rhyw gymaint o arbrofi gyda fformat y rhaglen cyn hyn. Arian yw'r broblem mae'n debyg. Nid oes ond rhaid edrych ar y stiwdio fach gyfyng i wybod fod hwnnw'n brin.

Ond wedyn, ni ddylai hynny gyfiawnhau'r Gymraeg wallus a welir ar y captions. "Tâi", "y Cynghor Llyfrau" oedd dau o'r enghreifftiau a nodwyd gan bobl.

Daw hynny â ni at y gwyn bennaf yn erbyn dull S4C o gyflwyno ei hun, sef y Gymraeg anghystrawennol nad yw'n aml yn ddim ond cyfieithiad gair am air o idiomau Saesneg. "Mae'r amser yn dod i fyny i..."; "Mae gen i fy siwt ofod ymlaen..."; "Bydd glaw yn hwyrach ymlaen..." oedd y rhestr fer a nodwyd gan un. Os ydym wedi cyrraedd y diwrnod du pan fo Cymraeg llafar cyhoeddus byrfyfyr a chywir yn amhosibl, beth am sgriptio'r cyfan o flaen llaw?

Un gwendid anfaddeuol yw'r arfer o ddechrau rhaglenni cyn amser. Digwydd yn barhaus gyda'r canlyniad fod dyn yn colli talpiau go helaeth o raglenni y mae am eu gweld. Onid yw'r bobl sy'n gwneud y rhaglenni yn gynddeiriog gyda'r arfer hwn sy'n colli gwylwyr iddynt?

Trosglwyddir yr holiaduron oll i S4C a diolchwn iddynt am gael cymryd rhan yn ei sampl. Gobeithio nad jobyn P.R. yn unig oedd hyn iddynt ac y bydd pori manwl trwy sylwadau pawb a ysgrifennodd. Pigo ar bwyntiau a gododd drosodd a thro a wnaed yma. Roedd digon o sylwadau bachog ac adeiladol eraill ymhlith y ddau gant. Fe rown y gair olaf i rai ohonyn nhw.

"Hoffwn weld llai o yfed cwrw yn y dramau".
 - gwraig 60 oed

"Yr un hen wynebau sy'n britho'r set deledu yn Gymraeg".
 - gŵr 52

"Mae yna gred ar led fod sgrechiadau yn ddoniol. Dydi o ddim".
 - gwraig, 38 oed

"Mae cerddoriaeth y Tywydd yn drychinebus, beth bynnag yw'r tywydd".
 - gwraig, 51

"Mwy o gerddoriaeth dda. Gormod o sothach pop 'ma. Yr esgus yw fod y bobl ifanc eisiau canu pop o hyd ond ddylech chi ddim rhoi i mewn iddynt".
 - gwraig

"Dim digon o bop".
 - llanc, 14 oed

"Dim digon o gomedi da".
 - dyn, 38

"Cymraeg gwallus yw fy nghwyn fawr i"
 - gwraig na roes ei hoedran ond a gywirodd y gwall argraffu ar yr holiadur. Ie, Llandaf heb do bach sy'n gywir. Diolch!

"Byddai'n braf cael ambell raglen Gymraeg hwyr y nos, yn enwedig dros y Sul".
 - gŵr, 28. Clywch! Clywch!

"Beth ddigwyddodd i hysbysebwyr Cymraeg y mis-oedd cyntaf?"
 - dyn, 30 oed

"On the whole - poor show".
 - person 83 oed

"Mae'r awyrgylch gartrefol rywsut, rywsut yn fy ngwylltio".

"Beth am rywbeth i'r gwragedd yn y prynhawn?"
 - gwraig dros 21

"Rwy'n hoffi unrhywbeth gyda Huw Llywelyn Davies!"
 - gwraig 30

---

Llongyfarchiadau i Rhys Morris, mab Judith a Hywel Morris, Highfields, Llandaf. Daeth Rhys, sydd yn y chweched dosbarth yn Ysgol Glantaf, yn un o'r buddugwyr yng nghystadleuaeth ysgrifennu traethawd yn Gymraeg ar y testun 'Y Chwyldro Telethrabol'.

Noddwyd y gystadleuaeth gan yr Adran Fasnach a Diwydiant i ddathlu Blwyddyn Gyfathrebu Byd Eang. Mae Rhys yn un o wyth o fuddugwyr o Gymru a'u gwobr fydd taith deng niwrnod i Siapan yn dechrau ar Ragfyr 9fed i ymweld â ffatrioedd yn Tokyo, Osaka a Kyoto.

---

Llongyfarchiadau i Lisa, merch Glenys a Brian Evans, Llysfaen, ar ennill y wobr gyntaf am unawd ar y delyn o dan 16 oed yn yr Wyl Gerdd Dant yn Aberystwyth. Mae Lisa hefyd yn ddisgybl yn Ysgol Glantaf.

Telynores newydd i'r Ddinas! Mae Marged Llwchwr wedi symud i fyw i ardal Llandaf. Tybed pa mor hir y bydd ei bysedd medrus yn llonydd cyn i ryw barti neu'i gilydd gael gafael ynddi?

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Fel dramodydd a nofelydd ac awdur straeon byrion y meddylir am fy nghymydog Bernard Evans, ond ymry i farddoni o bryd i'w gilydd gan beri imi amau a oes rhywbeth yn awyr Heol Don ai peidio! Pleser mawr yw cael cyhoeddi'r gerdd hyfryd hon o'i eiddo yn y golofn y mis hwn.

Y GOEDEN EIRIN

Mwyn oedd hi yno,
Y glaswellt yn bodio bysedd y traed,
A'r heulwen yn patrymu'r glaswellt
Rhwng deiliach y goeden eirin.

Tithau,
Wedi lludded dy ddiwrnod gwaith,
Wedi ail godi o dduwch y pwll,
Yn pwyso dy gefn ar foncyff yr hen goeden,
Y llyfr ar dy lin
A golau'r heulwen yn llifo eto i'th lygaid.

Ni, ein dau -
Tithau yn holl sicrwydd heini dy gyhyrau
Yn gweld dros ymyl y tudalennau
Heulwen y dyfodol yn llonni
Gorwelion dy fyd.
A'th fab dwyflwydd yn pwyso arnat
Yn sicrwydd dy gadernid, yn ddiogel yng nghylch
Y dydd a ddaw i'w ran.

Llais Mam yn galw swper.

Edrychaist ar dy gyntaf anedig,
Cydiaist yn ei law,
Ac yn sicrwydd eich diogelwch,
Cerdded o'r ddau ohonoch
Yn hyderus at y tŷ
Yn hollol siwr,
Bod parhâd i heulwen.

Bernard Evans.

Cofiwch yrru eich cerddi ataf. Y cyfeiriad yw: 'Penmaen', 31, Heol Don, Yr Eglwysnewydd.

(o tud 10)

United. Gwrthwynebwyr medrus yn chwarae peldroed deallus ac ar hanner amser roeddynt ar y blaen o 2 gôl i 1. Roedd y ddau dîm i lawr i ddeg dyn erbyn hynny, a 'Haggler' Huws a blaenwr Canton wedi bod yn troi fel 'Catherine Wheel' ar y maes cyn i un 'bangar' ar ôl y llall olygu diwedd y 'fireworks' i'r ddau ohonynt. O hynny ymlaen, gwlla wnaeth y sefyllfa, a'r Cymric a orfu ar ddiwedd y gêm o 3 gôl i 2, gyda Gareth 'Sêr', a lwyddodd i gyrraedd y maes cyn dechrau'r gêm, a Capten 'Cae-Canol' yn rhwydo'n fendigedig. (Deuddeg pwyth a thrwyn racs yn ddiweddarac cyrhaeddodd 'Haggler' yn ôl i'w gampfa i gael ychydig yn fwy o rowndiau o dân gwyllt o du ei gymar!) Gohiriwyd gêm 12fed o Dachwedd oherwydd methiant y dyfarnwr i bresenoli ei hun.

Mae'r Ail Dîm yn dechrau ymateb i'r her bellach hefyd a braf ydi cael cofnodi buddugoliaeth gynta'r tymor yn erbyn Toriaid Cathays o 4 gôl i 3 ar Hydref 28ain. Sgoriwyd y goliau gan y ddau Richard, Parsons a Bala, dwy yr un. Methwyd a chadw'r momentwm i fynd am y ddwy wythnos ganlynol ac yn anffodus, oherwydd galwadau ar y chwaraewyr, colli fu'r hanes o 3 gôl i 1 yn erbyn Llanrhymni, ac o 3 gôl i 0 yn erbyn Ely Rangers. Mae 'Twics' yma o hyd serch hynny, ac mae ei stamp arbennig wedi ei osod ar y tîm ers dechrau'r tymor. Hei lwc y bydd y cyfnod o hyn i'r Nadolig yn dod a mwy o lwyddiant i'w rhan, ac y bydd y tîm cyntaf yn adeiladu ar y gwaith da sydd eisioes wedi ei wneud.

Rhodri Gwyn Jones.


# YSWIRIANT BYWYD

Yn gyffredinol, mae pobol yn dechrau meddwl o ddifri am yswiriant bywyd wrth ymgymryd â chyfrifoldeb newydd; er enghraifft, gŵr priod a chanddo wraig a phlant.
Mewn arolwg yn ddiweddar daeth ffeithiau syfrdanol i'r golwg; nad oes gan fwy na thraean o oedolion y wlad hon unrhyw yswiriant bywyd o gwbwl; o'r rhai sydd ganddynt yswiriant bywyd, mae mwy na'u hanner yn talu llai na £10 y mis amdano; ac i'r rhai a wyddant faint o yswiriant bywyd sydd ganddynt mae llai na'u hanner yn werth o dan £5,000.
Yn anffodus, does dim llinyn mesur i nodi faint o arian fyddai angen i dalu unrhyw ddyledion (er enghraifft, clirio'r morgais, neu dalu am y car). Ac mae unrhyw drefniant sy'n dderbyniol un flwyddyn yn siwr o gael ei ddifetha gan chwyddiant neu ryw newid mewn amgylchiadau. Felly, dylai gwerth yr yswiriant bywyd gael ei adolygu'n gyson, yn ddelfrydol, bob tair blynedd.
A'r gost? Dibynna hyn ar oed ac ar faint yr yswiriant. Er enghraifft, i ddyn 30 oed sydd ond angen yswiriant o £50,000 ar farwolaeth cyn 65 - ond dim os fydd byw - mae'r gost yn llai na £15 y mis. Swm bychan am sicrwydd i'r teulu ac am dawelwch meddwl.

Croeso cynnes i Ian Jones, ein Trysorydd newydd. Mae'n Gyfrifydd gydag S4C.

Highfields eto! Croeso i'r teuluoedd newydd symudodd yno yn ddiweddar; i Lynn Davies (BBC) a'i deulu; Meurwyn (BBC) a Carys (Melin Gruffydd) Williams a'r plant a Brian James (dirprwy Glantaf) a'i deulu. Ddylai rhywun o ddifri ddechrau Côr Cerdd Dant neu dîm ffwtbol ar y stryd?

Mae Gwilym Humphreys, cyn brifathro Rhydfelen, a'i deulu, wedi'n gadael o'r diwedd i fyw ar lan y Fenai.



Cardiau Nadolig
Steddfod yr Urdd
Caerdydd 1985
ar werth nawr –
Holwch yn yr ysgol
neu galwch yn TAFLEN



Nadolig Llawen

10 cerdyn gwahanol am £1





- **CLAP A CHÂN I DDUW** Eddie Jones & Falyri Jenkins
  *74 o emynau modern, hwyliog i blant / £4.50*
- **CANEUON RYAN** / £2.50
  *Trefniant cerddorol llawn o 11 o'i ganeuon mwyaf poblogaidd*
- **CYMRU'R CYNFAS** Hywel Harries / £4.95
  *Gwledd o luniau lliw a du-a-gwyn gan 15 artist cyfoes; c.caled*
- **MARC DANIEL** Dafydd Parri
  *Nofel ditectif gyffrous i bobl ifanc / £1.75*
- **DIGWYDDIADUR 1984**
  *Dyddiadur poced mwya handi'r iaith / £1.15*
- **SGORIO MIL–9. Gwaith a Hamdden**
  **SGORIO MIL–10. Y Byd Pop**
  *Yr olaf yn y gyfres gweld-a-sgorio gan Catrin Stevens / 75c yr un*
- **CYFRES RWDLAN–1. Rala Rwdins, 2. Ceridwen**
  *Cyfres newydd o lyfrau doniol i blant bach gan Angharad Tomos 95c yr un*
- **CANT O GROESEIRIAU** Blodwen Jones
  *Y ffordd ddelfrydol o ladd amser dros yr Wyl! / £1.95*
- **YSGRIFE'R RANDIBŴ** Corissa Jones
  *Ysgrifau dychanol yn nhafodiaith Maldwyn / £1.95*

Ein Catalog 48-tudalen ar gael am ddim drwy'r post

Y Lolfa
*Gwasg fywiocaf Cymru!*
TALYBONT CEREDIGION ffôn 304


# HOSAN NADOLIG


NADOLIG CYMREIG YNG NGHANOL Y DDINAS

Y Cwbwl dan yr un to

Llyfrau Recordiau
Cardiau Calendrau



Oriel
53 Heol Siarl,
Caerdydd.
ffôn 395548

# LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,

Ni welais ddim o lythyr WJJ y cyfeiria Rhodri Gwyn Jones ato. Ond wrth iddo ddyfynnu rhai o gwynion WJJ, rhaid imi gyfaddef fy mod i'n cytuno â phob barn y'i dyfynwyd. Ond pam na chefnogwyd WJJ gan siaradwyr neu lythyrwyr? Mae'r ateb yn syml. Ni fydd y rhai sy ddim yn hoffi'r cylchgrawn yn ei ddarllen - ar wahân i ambell i fasocist fel WJJ a minnau.

Yn anffodus, nid yw'r DINESYDD yn fyw ac yn iach - ar yr 'heart-lung machine' Cyngor Celfyddydau Deddwyrain Cymru y mae. Er fod pob papur bro arall yn ceisio'n ddyfal iawn i gynnal ei hun i raddau, trwy osod pris rhesymol, nid yw'r DINESYDD yn barod i wneud hynny; dim ond estyn y cawg cardota yn gyfnodol. Pam tybed? Er mwyn ymddangos yn barchus a Seisnig o flaen y Swyddfa Gymreig? Nid oes fyth erthyglau politicaidd neu ddychanol - dim ond yr hen golofnau llyfrau ac adolygiadau tai bwyta; ufflon o ddim am ddatblygiadau yng Nghaerdydd a'r cylch; hanes yr ardal; 'clecs y fro' ac yn y blaen. Dyna daeogrwydd i chi! O, gyda llaw, beth am gynhyrchu'r papur <u>bro</u> yn nhafodiaith y fro? Ys dywed y Llydawyr, "WJJ atao!"

Yn gywir,
<u>Duncan Pugh</u>.

Barchus Olygydd,

Ar ran Y Lloffwr, carwn longyfarch Y Dinesydd ar esgor ar gant o rifynnau.

Fe fum i'n ddigon ffodus i gael treulio mis neu ddau ar Banel Golygyddol Y Dinesydd ym 1973 - profiad a fu o fudd mawr i mi pan ddychwelais yma.

Dymuniadau gorau am ddyfodol hir a disglair.

Cofion cynnes,

JOHN JENKINS,
<u>Golygydd Y LLOFFWR.</u>

Annwyl Ddarllenwyr,

Rydych chi siwr o fod wedi sylwi ar brinder pamffledi, hysbysebion a llawlyfrau dwyieithog ym manciau a swyddfeydd post y ddinas. Neu 'falle nad ydych chi wedi. Efallai ein bod wedi cyfarwyddo gymaint â derbyn pethau mewn iaith arall nes anghofio sylwi ar y diffyg hwn - ac anghofio dangos anfodlonrwydd. A mae e'n ddiffyg, nid yn unig o'r safbwynt y dylai Cymro gael ei wasanaethu yn Gymraeg ond hefyd am fod sefydliadau fel y cymdeithasau adeiladu yn sefydliadau cyhoeddus, ac felly yn gyfle i atgoffa'r di-Gymraeg yn ein plith, mai yng Nghymru y mae nhw - ac nid unlle arall. Wedi'r cyfan mae'r ysgrifen weledol yn un o'r ffactorau sy'n cyfrannu fwyaf at ymwybyddiaeth dyn o ba wlad y mae ynddi.

Bu amryw o bobl yn cwyno am y drefn bresennol ledled Cymru ac yn annog sefydliadau o'r math i gynhyrchu mwy o lenyddiaeth ddwyieithog. Fodd bynnag, ofer yw ceisiadau fel hyn os nad yw'r cyhoedd Cymraeg, fel unigolion, yn gofyn am ffurflenni ag ati yn Gymraeg, a hynny bob tro. Hyd nes fod galw amdanynt, a'u bod yn cael eu defnyddio, a'u llenwi yn Gymraeg, ni fyddant yn cael eu darparu ar ein cyfer.

Yr eiddoch yn gywir,
<u>Mererid Davies</u>.

Annwyl Olygydd,

Erbyn hyn mae'r Clwb Rygbi yn teimlo'n ddigon eofn i gyhoeddi'u hymarfer 'Mini-Rygbi' ar fore dydd Sul yn nhudalennau'r Dinesydd.

Hoffwn innau ail-fynegi fy ngwrthwynebiad personol i i'r ymarferiadau hyn a'u heffaith andwyol ar arferion addoli pobl ifanc ein cenedl.

Gwelais yr hysbyseb ac yn llawn gobaith euthum at y Calendr i wybod a oedd y Clwb wedi edifarhau a dod o hyd i hyfforddwyr oedd yn fodlon hyfforddi'r bechgyn ar fore dydd Sadwrn - yn ofer bu hyn.

Yr eiddoch yn gywir,

<u>ETHNI JONES</u>.

# TORTH O FARA

Ar nodyn tymhorol, os ydych eisiau cadw eich pwysau i lawr dros yr Wyl, dyma ddwy enghraifft o giniawau'r Nadolig; cymerwch nodyn o'r gwahaniaeth yn y caloriau sydd ynddynt:-

<u>Cinio A</u>

Twrci wedi ei rostio
Rholiau cig moch
Selsig bach
Stwffin
Grefi
Bresych Brwsel
Moron
Tatws wedi eu rhostio
Pwdin Nadolig
Menyn Brandi
Mins Pei

Cyfanswm o galoriau ym mhob cyfran - <u>1,665</u>

<u>Cinio B</u>

Twrci wedi ei rostio, heb groen
Rholiau cig moch wedi eu grilio
Selsig bach wedi eu grilio
Stwffin castan
Grefi
Bresych Brwsel
Moron
Tatws wedi eu pobi
Pwdin yr Haf
Hufan Iâ

Cyfanswm o galoriau ym mhob cyfran - <u>718</u>

Bon - appetite!

<u>Eluned Davies</u>.

Mae nifer o'n darllenwyr wedi cael lladron yn eu tai yn ystod y misoedd diwethaf. Ydych chi wedi adolygu yswiriant cynnwys eich tŷ yn ddiweddar?


---------

Yng Nghaerdydd, Ebrill nesaf : Y Pumed Wyl Ffilm a Theledu yn y Gwledydd Celtaidd. Mwy o fanylion y tro nesaf.

CLWB IFOR BACH

Hoffai Clwb Ifor Bach dynnu sylw holl Gymry Cymraeg Caerdydd at y ffaith bod y Clwb ar agor yn ystod amser cinio yn ogystal â phob nos, gan gynnig detholiad o fyrbrydau bar, megis rholiau a brechdanau.

# LLENWCH EICH HOSAN NADOLIG GYDAG ANRHEGION BYRTI BWS



AR WERTH NAWR:

CRYSAU T, CRYSAU CHWYS, BATHODYNNAU,

BEIROS,PENSILIAU, PAD YSGRIFENNU,

MODRWY ALLWEDDI, CAPIAU PAPUR, PWRS ARIAN

PRY BLEWOG A MARC LLYFR.

CARDIAU NADOLIG EFYD AR WERTH

YR ELW I GYD TUAG AT GRONFA EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU, CAERDYDD A'R CYLCH 1985

AR GAEL ODDI WRTH Y PWYLLGOR CYHOEDD USRWYDD, 51, LON ISA, RHIWBEINA, CAERDYDD. FFÔN 627897 AC HEFYD YN SIOP TAFLEN

## FFORD RWYDD I DDATRUS EICH PROBLEMAU SIOPA NADOLIG GAN GEFNOGI EICH 'STEDDFOD.


SYRSTITIWT

'Ti'n chwarae dyddia' yma?' meddai rhyw lais tu cefn imi pan oeddwn yn ei bras-gamu hi ar draws llawr Marks and Spencer diwrnod o'r blaen.
'Duwch annwyl, chdni sy'na' medda finna, gan synnu braidd wrth weld gwyneb cyfarwydd o'r dyddiau gynt yn gwenu arnai - o ddyddiau cynt y beldroed y dyliwn i ddeud i roi'r ddrama yn ei chyd-destun.
'Ydw' meddwn yn ffwrbwt, 'Pam?'
'Ddim wedi darllan llawer yn y Dinesydd yn ddiweddar am hanes y bel gron'.
'O'
'Ti yn chwarae o hyd wyt ti? Ti'n siwr'.
'Ydw, dwi'n ffit fel ffidil' meddwn wrtho
'Beth sydd - ddim yn sgorio wyt ti ta - dyna pam nad wt ti'n sgwennu i'r Dinesydd?'
'Na, dwi'n dal i sgorio'.
'Faint ti wedi gael tymor yma ta?'
'Ddim yn cofio', meddwn.
'Paid â malu, mae pob centre-forward yn cofio faint o gôls mae o'n sgorio - mae o'n marcio nhw ar ei goesa neu ar bostyn y gôl'.
'Tair dwi'n meddwl'.
Pwff o chwerthin o gyfeiriad y cyfaill. 'Tair - a hithau bron yn Dolig, toes na fawr o siâp arnat ti felly nag oes'.
'Dwi ddim wedi chwarae ym mhob gêm wsti'.
'O, pam,'nest ti frifo?'
'Naddo....y....'sub' oeddwn i dydd Sadwrn dwyta'.
A dyna ddiwedd y sgwrs - toedd dim modd cael gair call ymhellach gan ei fod yn gorwedd ar ei gefn ar garped M & S yn chwerthin o'i hochor hi. Chwerthin am fy mod i yn 'sub' ac yn cymeryd arno ei bod yn amser i mi feddwl am roi'r gorau iddi bellach. 'Hy', meddwn wrthyf fy hunan, 'Ma Cen Cartŵn yn dal i chwarae a ma hwnnw flynyddoedd maith yn hŷn na fi'. Ma hwnnw yn cofio'r rhyfel a Hitlar a 'rations' a phetha felly...
A dyma feddwl o ddifri am y tîm yn ei gyfanrwydd. Wn i ddim be da' chi'n wneud o ystadegau ond rhowch glust i'r canlynol a fydd yn siwr o ddod a gwên fach i'r wyneb:
Ystyriwch, pan fo Wyn, Els Bach a minnau yn chwarae fel blaenwyr, fod y coesau yn cario 98 o flynyddoedd o brofiad yn y gêm. Blynyddoedd o brofiad yn sicr, ond fod y profiad yn troi yn atgo ambell i bnawn Sadwrn wrth i ieuenctid chwimwth y gwrthwynebwyr wibio heibio ar eu coesau deunawmlwydd.

Ystyriwch ymhellach, pan fo Gareth 'Haggler' Huws, Cen Passmore, Rob Sangar a Dewi yn llenwi'r pedwar safle allan o'r pump, fod yna 133 o flynyddoedd o gicio coesau gwrthwynebwyr fel llinell olaf amddiffyn y Cymric.

Ystyriwch Eynon yng nghanol y cae, ac o'r wyth a enwyd eisioes, mae cyfartaledd oedran y tîm bron iawn a chyrraedd 33.

Ystadegau ddywedais i ynte - gwnewch beth a fynnoch â nhw - canlyniadau sy'n cyfrif a dyma rhyw grynodeb byr o'r gemau olaf a chwaraewyd.
Mae'r tîm cyntaf yn mwynhau ha' bach Mihangel ar hyn o bryd ac yn ddiguro yn y gynghrair ers diwedd mis Medi, er fod yna un gweir wedi bod yn y gêm gwpan ym mis Hydref. Canlyniad da ar Hydref 28ain yn erbyn Grange FC - tîm anodd i'w curo ar unrhyw achlysur a gorfu brwydro hyd yr eiliad olaf i sicrhau'r ddau bwynt. Rhodri'n sgorio'r gôl gyntaf yn yr hanner cyntaf a Gareth Cwm yn taranu'r bel i'r rhwyd o ongl anhygoel i roi'r sgôr yn 2 i 1 o'n plaid.
Yr wythnos ganlynol, Tachwedd 5ed, tân gwyllt o gêm yn erbyn Canton

# PRYNWCH YM MHONTCANNA

PETHAU CAIN

Anrhegion i'r teulu cyfan. Beth am anrheg arbennig - y Baromedr Cymraeg? Yn agored o 10 tan 5 o'r gloch yn

1, Pontcanna Place.

SAN DOMENICO

STRINGED INSTRUMENTS

Dewis helaeth o offerynau llinynol o bob cyfnod. Offerynau i'r dechreuwr neu'r cerddor proffesiynol.

175, Kings Road
Ffôn: 35881

ARCHWAY ANTIQUES

Yn eisiau - pob math o hen bethau, celfi, unrhyw beth. Telir arian parod am glirio tai.

182, Kings Road, Treganna.
Ffôn: 388397

PONTCANNA HARDWARE

Siop hen-ffasiwn, gwasanaeth hen-ffasiwn. Offer garddio, offer i'r tŷ, tannwydd a phob math o bethau eraill.

217a Heol yr Eglwys Gadeiriol.

Siop Jen

Popeth ar gyfer gwau - i'r dechreuwr neu rywun profiadol. Pob math o wlanau a phatrymau.

91, Pontcanna Street.

Massari & Berni

Bwydydd da. Gwinoedd. Papurau gan gynnwys papurau Cymraeg.

231/233 Heol yr Eglwys Gadeiriol.

HERITAGE

Hen ddodrefn ac antiques. Gelfi pinwydd yn arbennig.

83, Pontcanna Street.

E.J. PURCELL

Cigydd o safon. Dim ond cig oen a phorc o Gymru. Arbenigo mewn cig i'r rhewgell ac rydym yn dosbarthu yn ardal Caerdydd.

235, Heol yr Eglwys Gadeiriol.

D.J. DRISCOLL

Cigydd o safon. Cig da a chig cartref yw ein harbenigrwydd.

221, Heol yr Eglwys Gadeiriol.

PULSE WHOLEFOODS

171a, Kings Rd., Treganna.

Bwydydd cyflawn, bara grawn, caws llaeth gafr a iogurt. Hefyd dewis enfawr o berlysiau a speis. Cyngor ar iechyd a ble i ddod o hyd i gymorth meddygol homeopathig ac ati yng Nghaerdydd. Yn agored chwe diwrnod yr wythnos o 10 tan 6.

Peacocks


**"PICIWCH I MEWN I PEACOCK'S MAE'R FARGEN BOB AMSER YN UN DDA"**

20 CANGEN YNG NGHYMRU, GAN GYNNWYS

204, HEOL DDWYREINIOL Y BONTFAEN, CAERDYDD
4-6, COUNTISBURY AVENUE, LLANRYMNI, CAERDYDD
CITY STORE: CANDLFAN DEWI SANT, CAERDYDD
HOUSEHOLD CENTRE: 108, STRYD Y FRENHINES, CAERDYDD
PEACOCK'S STORES, CYF. P.O. BOX 24, CAERDYDD CF1 8XQ

# CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 38



AR DRAWS:

1. Dymchwel y certi a rhwygo'r cymod, - ai dyna yw nodwedd bod yn Gymro?(10)
6. Yr hyn sy'n bradychu dyn - mewn ffordd o siarad(4)
10. Yn lân a threfnus odiaeth. (3,3,4,5)
11. Gorthrymderau sydd yn ein taro ni oll (a hanner mil arall hefyd) (9)
12. Arwydd i'r bore-godwyr (5)
13. Porthladd yn Llydaw sy'n agos at bawb bron. (5)
15. Torrwyd darn anferth allan o gynllun yr hufenfa wreiddiol. (6)
19. Effaith blodau haf. (6)
20. Gan Enid a Megan y clywais i'r stori - dyna wers iti! (5)
23. Un yn siarad â fo'i hun - ac eraill yn gwrando. (5)
24. Yn foesgar, mae'n plygu. Mae hyn yn beth naturiol i henwr. (9)
26. Gweithwyr dan reol sy'n gwneud y ffordd orau o drefnu cymdeithas. Tybed? (15)
27. Dynion sy'n mynd yn gam wrth symud y to. Maen' 'nhw'n gwybod hynny hefyd. (4)
28. Mae'r llun sydd iawn, o'i unioni, yn dangos ei fod yn ffynnu. (10)

I LAWR:

1. Y gair tebycaf i droi a chydweddu. (7)
2. Deunydd trwser y chwarelwyr gynt. (8)
3. Yr had yn blaguro yng nghegin Olwen Rees. (5)
4. Yr hyn mae pob mab naturiol yn ei geisio.(5,4)
5. Rhod sy'n troi yn nwylo'r datrysydd. (5)
7. Cael W.P. i'r cwrdd - lle i'r cadwedig. (6)
8. Trigolion Gwynedd a Chlwyd yn dod o Lychlyn? (7)
9. Buwyd yn erfyn yn daer. (8)
14. Bum yn pregethu gydag arddeliad. (8)
16. "Y pellter oedd rhyngddynt oedd fawr,
--'- ------ a'i haeddiant ei Hun" (John Williams, Sain Tathan) (2'1,6)
17. Dangoseg y rydd naw M.A. o'u gallu amlochrog. (8)
18. Cadarn i'w bleidwyr; penstiff i'w wrthwynebwyr.(7)
21. Cywilydd o beth! (7)
22. Os mai dyna sut y mae pethau. (2,4)
24. Gweddol dda - os gwelo rywsut. (2,3)
25. "Pan Calfaria
-----'r ddaear wrth y nef." (Dyfed) (5)

---------

DATRYSIAD RHIF 37

Ar Draws:
1. CYHOEDDUSRWYDD; 8. AMSEROL; 9. NADROEDD; 11. SMOCIWR; 12. SIMACHOD; 13. ANIAN; 14. BU'N EDIFAR; 16. ROWND-IAIS; 19. DYGNU; 21. IS-IEIRLL; 23. YSGOGAI; 24. INDRAWN; 25. IRFONWY; 26. TARO DAU DDERYN;
I Lawr:
1. CYSGOD; 2. HERCIAN; 3. EGLUREB DDA; 4. UNNOS; 5. REDI MED; 6. YMOLCHAF; 7. CAWS CAERFFILI; 10. DDADORCHUDDIWYD; 15. NOS-WYLIODD; 17. WEINDIA; 18. DEINAMO; 19. DYGYFOR; 20. GOGANWN; 22. LLONNA.

-------

CYSTADLEUAETH RHIF 37

Yr enw a ddaeth o'r het oedd eiddo Mr. T.Gwynn Jones, Drws y Nant, Llanfairfechan, ond mewn nodyn ar ymyl y croesair fe ddywed Mr.Jones, "Os yn llwyddiannus, rhodder y wobr yn ôl i'r 'Dinesydd'." Felly, wrth ei longyfarch, yr ydym yn diolch iddo ac yn falch o glywed fod ymwelydd â Chaerdydd wedi cael mwynhad yn y 'Dinesydd'.
Derbyniwyd atebion hollol gywir hefyd oddiwrth:- C.Davies, Cyncoed; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd; Ap Gwilym, Rhiwbeina; T. Roberts, Pentwyn; a B.H., Cyncoed.
Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg gwerth £5 y mis hwn eto, a chan fod y rhifyn yn ymestyn dros Ragfyr a Ionawr, fe gewch tan Ionawr 21ain at y gwaith. Ysgrifennwch eich enw (neu ffugenw) a'ch cyfeiriad ar ymyl y Croesair a'i gyfeirio at AP LEWSYN, 13 RANNOCH DRIVE, CYNCOED.

---

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru ac i'r Swyddfa Gymreig am eu cefnogaeth ariannol at gostau'r Dinesydd.

------

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Chwefror at Y Golygydd, Aled Islwyn, 139 Fairwood Rd., Llandaf, Caerdydd. (568145) erbyn Ionawr 18fed.

------



Argraffwyd gan Fingerprints(tu), Caerdydd.